

The logo for COMBI features the word 'COMBI' in a bold, dark blue, sans-serif font. The letter 'O' is replaced by a stylized speech bubble containing two overlapping circles, one red and one orange. The background is white with several faint, light blue speech bubbles scattered around the text.

COMBI

Communication competences for migrants
and disadvantaged background learners in bilingual work environments

MAP TUAG AT WELLA CYMWYSEDDAU CYFATHREBU MEWNFUDWYR SY'N GWEITHIO MEWN ARDALOEDD DWYIEITHOG

Cynnyrch prosiect COMBI Cymwyseddau
cyfathrebu ar gyfer mewnfudwyr mewn gweithleoedd dwyieithog
01/11/2016 - 31/08/2019

combiproject.eu



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union



COMBI: Cymwyseddu cyfathrebu ar gyfer mewnfudwyr
mewn gweithleoedd dwyieithog

MAP TUAG AT WELLA CYMWYSEDDAU CYFATHREBU MEWNFUDWYR SY'N GWEITHIO MEWN ARDALOEDD DWYIEITHOG

Alberto Biondo - Ana Labaka Usabiaga
- Christina Wagoner - Cor van der Meer - Dario Ferrante - Elina Tuomikoski -
Gwennan Higham - Helene Armentia - Jidde Jacobi
- Johanneke Buning - Jorrit Huizinga - Jutta Kosola - Marit Bijlsma - Petra Elser - Ramziè Krol-Hage - Richt Sterk

Bwrdd Cynghori COMBI:
Arantza Lekuona Zabala - Jeroen Darquennes - Kathryn Jones - Kristiina Kuparinen -
Roberta Lo Bianco - Xabier Aierdi Urraza

combiproject.eu



This work is licensed under a Creative
Commons Attribution 4.0 License

**Map tuag at wella cymwyseddau
cyfathrebu mewnfudwyr sy'n gweithio
mewn ardaloedd dwyieithog**


Prosiect COMBI

Cymwyseddau cyfathrebu ar gyfer mewnfudwyr mewn gweithleoedd dwyieithog

Sefydlwyd prosiect COMBI, a ariennir gan Erasmus+, i ddatblygu deunyddiau ac arferion dysgu arloesol a chynhwysol y bwriedir iddynt wella cymwyseddau cyfathrebu a sgiliau iaith lleiafrifol mewnfudwyr sy'n gweithio mewn llawer o ranbarthau dwyieithog Ewrop, yn benodol mewn sectorau sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog megis y sector gofal henoed, gofal cymdeithasol a gofal iechyd. Nid yw dulliau COMBI yn anelu at sicrhau cymwyseddau iaith llawn ond, yn hytrach, at ddatblygu sgiliau gweithredol sy'n berthnasol i'r gofynion yn y gweithle.

Mae tîm COMBI yn cynnwys chwe phartner o bum gwlad Ewropeaidd, pob un â'i faes arbenigedd ei hun ym meysydd ymchwil academiaidd, hyfforddiant galwedigaethol a chyfathrebu digidol.

Mae'r ddogfen ganlynol yn fap y bwriedir iddo roi darlun o'r sefyllfa bresennol o ran mewnfudwyr sy'n gweithio mewn ardaloedd dwyieithog a dysgu ieithoedd lleiafrifol a sut y gellir gwella'r sefyllfa hon.



Ffigur 1: Lleoliadau chwe phartner prosiect COMBI.

Strwythur y map:

Dadansoddi anghenion

I nodi rhwystrau a pha adnoddau sydd eu hangen/pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau gwelli-m.

Gweithredu

I benderfynu cynhyrchion COMBI ac ysgogi eraill i'w datblyddio.

01

Heriau Ewropeaidd

Pa heriau pan-Ewropeaidd y mae pwyseid COMBI yn rhyngol i'w ated â rhan?

02

03

Datblygu

cynhyrchion sydd eu hangen er mwyn sicrhau gwelliant ac i'w treiddio.

04

05

Argymhellion

I lunwyr beisi, a'wrawon a rheolwyr gofal ischyd: yn eiddo ar ôl i'w cynhyrchion COMBI ar waith, pa gamau pellach sydd angen eu cymryd?

tuag at wella cymwyseddau cyfathrebu mewnfudwyr sy'n gweithio mewn ardaloedd dwyieithog

1 Heriau Ewropeaidd

sy'n arwain at nodau COMBI

laith: rhwystr mawr i fewnfudwyr sy'n chwilio am waith...

Yn 2015, ymfudodd cyfanswm o 4.7 miliwn o bobl i un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau'r UE (Eurostat 2017). Yn aml, mae angen i'r mewnfudwyr hyn ennill bywoliaeth yn eu hamgylchoedd newydd. Dengys y gyfradd diweithdra uchel ymhlith mewnfudwyr medrus iawn fod hon yn dasg anodd y mae heriau yn gysylltiedig â hi (A New Skills Agenda for Europe, 2016). Iaith yw'r her a enwir amlaf sy'n

wynebu mewnfudwyr wrth iddynt chwilio am waith (e.e. Yao ac Ours 2015) ac mae llwyddo i integreiddio'n ieithyddol yn gam pwysig tuag at gynhwysiant economaidd. Mae'n dilyn, wrth reswm, mewn ardaloedd dwyieithog, fod mewnfudwyr yn wynebu problemau ychwanegol: yma mae llawer o swyddi yn gofyn am sgiliau yn yr iaith fwyafrifol a'r iaith leiafrifol.

Yn y sector gofal ac mewn meysydd gwaith eraill, mae sgiliau cyfathrebu, gan gynnwys sgiliau ym mamiaith claf yn hollbwysig

Mae'r sector gofal yn un maes gwaith lle mae sgiliau iaith leiafrifol yn bwysig iawn: yn aml mae'n well gan gleifion ddefnyddio eu hiaith frodorol wrth siarad â staff a dengys ymchwil fod personél sy'n defnyddio iaith frodorol y claf, neu sy'n ymwybodol ohoni hyd yn oed, yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant a'r ymdeimlad o gysur (e.e. Irvine et al. 2008).

“Dyma'r gwahaniaethau cynnil mewn iaith sy'n gwneud y cyd-destun yn gwbl wahanol, drwy ddefnyddio un gair yn unig.

Ni allwch ganiatáu i gamddealltwriaethau ddigwydd ym maes meddygaeth – wrth drafod pethau meddygol mae'n rhaid i chi eu cyfleu'n fanwl gywir.”

(Meddyg Ysbyty, dyfyniad o Irvine et al. 2008)

Yn olaf, dengys profiadau o ranbarthau'r partneriaid y gall gweithwyr mudol deimlo eu bod wedi'u hallgáu pan na allant ymuno mewn sgysiau yn yr iaith y mae staff a chleifion yn ei defnyddio ymhlith ei gilydd.

“Weithiau drwy siarad ei iaith ei hun – drwy gydnabod, wyddoch chi, ei iaith ei hun, mae'n golygu eich bod yn ei gydnabod fel person cyfan.”

(Nyrs o Gymru, dyfyniad o Irvine et al. 2008)

At hynny, ymddengys fod dementia yn effeithio ar yr iaith frodorol olaf a leiaf, sy'n golygu mai'r iaith hon, yn y pen draw, yw'r unig ffordd o gyfathrebu ar lafar wrth i'r clefyd ddatblygu (Mendez, Saghafi a Clark 2004).

“Dechreuodd pobl sôn am brofiadau a gawsant flynyddoedd yn ôl. Yn bennaf sut roeddent yn teimlo eu bod yn destun gwahaniaethu a'u bod wedi'u

hallgáu am nad oeddent yn siarad Basgeg”

(Profiadau mewnfudwyr sy'n gweithio yn y sector gofal a ymunodd â chynllun peilot COMBI)

2 Dadansoddi anghenion

i nodi rhwystrau a pha adnoddau sydd eu hangen/pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau gwelliant (allbwn cyntaf COMBI)

Dadansoddiad COMBI o anghenion:

Er mwyn dysgu mwy am y llwybrau sydd ar gael i fewnfudwyr ddysgu'r iaith leiafrifol cynhaliodd COMBI ddadansoddiad o anghenion: mae'n cynnwys adolygiad o lenyddiaeth ac arolwg a gynhaliwyd ymhlith mewnfudwyr, rheolwyr a swyddogion ym maes gofal iechyd a chymdeithasol, hyfforddwyr galwedigaethol ac athrawon iaith yn y pum gwlad sy'n bartneriaid i COMBI. Dengys y dadansoddiad y polisïau a'r arferion sydd eisoes yn bodoli o ran mewnfudwyr sy'n gweithio yn y sector gofal yn dysgu ieithoedd lleiafrifol ac agweddau'r ymatebwyr i'r arolwg at fewnfudwyr sy'n dysgu'r iaith leiafrifol yn ogystal â'r iaith genedlaethol.

Dengys:

fod gwledydd yn amrywio'n fawr o ran polisïau ac arferion, ond bod *pob un* yn cynnig llwybrau i ddysgu'r iaith fwyafrifol. Fodd bynnag, mae llawer llai o lwybrau ar gael i ddysgu'r iaith leiafrifol. Dim ond Gwlad y Basg a Sweden sydd â pholisïau sy'n anelu at gyfarwyddo mewnfudwyr â'r iaith leiafrifol a dim ond yng Ngwlad y Basg y rhoddir y polisi hwn ar waith yn rheolaidd.

Dengys yr arolwg fod mewnfudwyr sy'n gweithio yn y sector gofal yn deall pwysigrwydd dysgu'r iaith leiafrifol, ond, yn aml, nad oes unrhyw gyrsiau sydd wedi'u teilwra at anghenion

mewnfudwyr a/neu ofynion iaith-benodol y gweithle.

Argymhellion y dadansoddiad o anghenion:

Mae angen creu dulliau dysgu iaith sydd wedi'u hanelu'n benodol at fewnfudwyr ac sy'n canolbwyntio ar wella'r cymwyseddau cyfathrebu sydd eu hangen yn y gweithle. Mae angen i'r dulliau hyn ystyried yr iaith leiafrifol. At hynny, mae angen sicrhau bod llunwyr polisi a chyfleusterau gofal yn llawer mwy ymwybodol o ba mor bwysig ydyw bod gan staff sgiliau iaith leiafrifol.




Figure 3: self-reported skills in the minority language of interviewed migrants working in the care sector in one of the five partner countries.





Figure 4: opinion of migrants working in the care sector in one of the five partner countries about the statement "Speaking the minority language is essential for my job".

Mae Dadansoddiad COMBI o Anghenion ar gael:

yn Saesneg, o dan drwydded agored yn;

<http://combiproject.eu/wp-content/uploads/COMBI-output-01.pdf>

Bydd fersiwn dalfyredig yn y Saesneg, y Sbaeneg, yr Eidaleg, yr Iseldireg a'r Gymraeg ar gael yn fuan ar wefan COMBI.



3 Datblygu

cynhyrchion sydd eu hangen er mwyn sicrhau gwelliant ac i'w treialu

Gan ddilyn argymhellion y *Dadansoddiad o Anghenion*, mae COMBI wedi datblygu dulliau sy'n cyfrannu at agor llwybrau i fewnfudwyr sy'n gweithio mewn ardaloedd dwyieithog wella eu sgiliau cyfathrebu a'u sgiliau iaith leiafrifol.

Mae Pecyn Hyfforddi Athrawon COMBI:

yn ddogfen **hyblyg** iawn, y gall hyfforddwyr galwedigaethol, athrawon iaith, rheolwyr a swyddogion gofal a'u staff ei defnyddio i ddatblygu cyrsiau er mwyn gwella sgiliau cyfathrebu a sgiliau iaith leiafrifol myfyrwyr a staff mudol. Mae'n cynnig adnoddau i addasu cwrs at bolisiau penodol gwlad a sefydliad, anghenion iaith-benodol cleifion a chefnidiroedd diwylliannol/ieithyddol a sgiliau presennol y myfyrwyr.

Gan ddefnyddio'r Pecyn Hyfforddi, gellir mapio polisi sefydliad ar yr iaith leiafrifol gan gynnwys agweddau ac arferion ei staff tuag at ddefnydd yr iaith leiafrifol.

Mae'r pecyn hyfforddi yn mabwysiadu dull **arloesol ac amlddisgyblaethol**: mae'n cynnig adnoddau er mwyn i hyfforddwyr galwedigaethol ymgorffori hyfforddiant iaith yn eu haddysgu ac adnoddau er mwyn i athrawon iaith addasu eu cyrsiau i'r gweithle.

Mae'n cynnig dulliau **cynhwysol** ac yn adeiladu ar y sail nad oes angen sgiliau llawn ond bod ymwybyddiaeth o iaith a sgiliau iaith gweithredol sy'n cyd-fynd â gofynion y gweithle eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gofal a llesiant y cleifion.

Yn ogystal â dogfen y gellir ei hargraffu, mae'r pecyn hyfforddi hefyd ar gael fel cwrs **rhyngweithiol**.

Bydd y Pecyn Hyfforddi Athrawon COMBI ar gael yn fuan:

yn y Saesneg, y Sbaeneg, yr Eidaleg ac yr Iseldireg a'r Gymraeg, o dan drwydded agored ar wefan COMBI. Gellir dilyn y cwrs rhyngweithiol eisoes am ddim yn [openlearning.com](https://www.openlearning.com/courses/combi-teachin-minority-languages/):

<https://www.openlearning.com/courses/combi-teachin-minority-languages/>

Modiwlau COMBI: ar gyfer athrawon, rheolwyr a swyddogion ym maes gofal a chymdeithasol yn ogystal â llunwyr polisi

Datblygwyd saith modiwl, yn seiliedig ar Becyn Hyfforddi COMBI, ac maent ar gael mewn cwrs digidol yn Openlearning. Mae pob cwrs wedi'i anelu at grŵp targed penodol ac mae'n darparu gwybodaeth am y pynciau canlynol:

1. Sut i gasglu gwybodaeth yn y gweithle am y sefyllfaoedd lle y defnyddir ieithoedd cenedlaethol a/neu ieithoedd lleiafrifol (*Casglu a dadansoddi anghenion cyfathrebu*).
2. Sut i gyflwyno dulliau arloesol a rhyngddisgyblaethol yn eich cyrsiau (*Dulliau amlddisgyblaethol o ddysgu*)
3. Enghreifftiau o ymarferion sy'n defnyddio dulliau arloesol a rhyngddisgyblaethol (*Ymarferion sy'n Defnyddio Dulliau Amlddisgyblaethol*). Mae'r modiwl hwn hefyd yn cynnig fideos o sefyllfa gofal a gwers i fyfyrwyr sy'n seiliedig ar y sefyllfa gofal hon, fel enghraifft o'r ffordd y gellir rhoi dulliau'r Pecyn Hyfforddi ar waith.
4. Agweddau y dylid eu hystyried wrth gynllunio cwrs ar wella sgiliau myfyrwyr yn yr iaith leiafrifol (*Cynllunio cyrsiau*)
5. Sut i ddefnyddio dulliau gwerthuso cynhwysol sy'n profi sgiliau iaith, sy'n defnyddio yn y gweithle, yn hytrach na sgiliau iaith llawn (*Adnoddau gwerthuso*).
6. Enghreifftiau o waith llunio polisi a rheoli da yn Ewrop sy'n agor llwybrau i mewnfudwyr ddysgu pob un o ieithoedd y gymuned letyol, gan gynnwys yr iaith leiafrifol (*Arferion gorau y gellir eu trosglwyddo ledled Ewrop*).
7. Rhestr o adnoddau dysgu rhyngweithiol ar-lein ar gyfer dysgu ieithoedd lleiafrifol y pum rhanbarth partner (*Adnoddau i weithwyr mudol ym maes gofal ieched*).

Mae pob un o fodiwlau COMBI ar gael:

yn y Saesneg, y Sbaeneg, yr Eidaleg, y Ffinneg, yr Iseldireg a'r Gymraeg, i gyd o dan drwydded agored yn Openlearning: <http://www.openlearning.com/courses/combiproject/homepage>

4 Gweithredu

Lledaenu adnoddau COMBI ac ysgogi eraill i'w defnyddio

Bwriedir i adnoddau COMBI gyfrannu at lwybrau i fewnfudwyr ddysgu'r iaith lleiafrifol, yn arbennig y rheini sy'n gweithio yn y sector gofal, neu sydd am weithio yn y sector hwnnw. Er mwyn sicrhau bod adnoddau COMBI yn effeithiol, mae angen i'r mewnfudwyr eu hunain, athrawon iaith, hyfforddwyr galwedigaethol, swyddogion a rheolwyr ym maes gofal iechyd a llunwyr polisi fod yn ymwybodol o ganlyniadau ymchwil ac adnoddau COMBI.

Gweithgarwch lledaenu hyd yma:

Yn ystod y prosiect, cafodd partneriaid y prosiect nifer o gyfleoedd i drafod gwaith datblygu'r adnoddau gydag unigolion megis rheolwyr a swyddogion sydd yn gweithio ym maes gofal a iechyd cymdeithasol a swyddogion mewn canolfannau ieithoedd lleiafrifol. Cymerodd mewnfudwyr, athrawon a gweithwyr gofal lleol ran yn arolygon COMBI a gwnaethant helpu i brofi a gwella'r *Pecyn Hyfforddi Athrawon*. Hysbyswyd llunwyr polisi am nodau'r prosiect drwy gyflwyniadau, er enghraifft y cyflwyniad i Aelodau Senedd Ewrop yng nghyfarfod y *Rhyng-grŵp Lleiafrifoedd* yn Strasbourg. Drwy gyflwyniadau mewn cynadleddau academaidd cyhoeddwyd canlyniadau ymchwil COMBI i nifer o feysydd academaidd. Yn ogystal â hyn, cymerodd aelodau o bob un o'r grwpiau targed ran ym mhedwar digwyddiad COMBI, lle y cyflwynwyd pedwar cynnyrch y prosiect—y Dadansoddiad o Anghenion, y *Pecyn Hyfforddi Athrawon*, y *Modiwlau a'r Map*.



5 Argymhellion

i lunwyr polisi, athrawon a swyddogion gofal iechyd: yn ogystal â rhoi adnoddau COMBI ar waith, beth arall sydd angen ei wneud?

Mae COMBI yn gobeithio gwneud cyfraniad sylweddol at wella sgiliau cyfathrebu a sgiliau iaith leiafrifol mewn fudwyr sy'n gweithio mewn ardaloedd dwyieithog. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni nod COMBI mae angen sicrhau camau pellach:

Rhestr o argymhellion

Mae angen i lunwyr polisi wneud y canlynol:

- cydnabod y dylai'r broses o integreiddio mewn fudwyr yn ieithyddol ganolbwyntio ar sgiliau iaith sydd eu hangen ar gyfer y gweithle.
- cydnabod bod sgiliau yn yr iaith fwyafrifol a'r iaith leiafrifol yn bwysig mewn llawer o weithleoedd, megis y sector gofal henoed, gofal cymdeithasol a gofal iechyd.
- Cydnabod bod y broses o integreiddio mewn fudwyr yn ieithyddol yn gallu digwydd yn iaith fwyafrifol ac iaith leiafrifol y gymuned groeso a bod angen iddi ddigwydd yn y ddwy iaith yn aml.
- datblygu fframwaith ar gyfer asesu sgiliau iaith mewn fudwyr sy'n ystyried yr iaith leiafrifol.
- cydnabod cefndir ieithyddol mewn fudwyr a rhoi gwerth ar y cefndir hwn mewn cyrsiau sy'n canolbwyntio ar integreiddio ieithyddol a diwylliannol.
- cydnabod bod anghenion myfyrwyr o gefndiroedd mewn fudol sy'n hyfforddi ar gyfer y gweithle yn aml yn wahanol i anghenion myfyrwyr eraill.
- sylweddoli nad oes fawr ddim llwybrau yn Ewrop ar hyn o bryd i fewn fudwyr integreiddio i gymunedau gwaith dwyieithog a bod angen creu'r llwybrau hyn, er enghraifft:
 - + drwy ariannu a/neu hwyluso'r broses o lunio cyrsiau a deunyddiau dysgu sydd wedi'u haddasu i realiti amlieithog y gweithle.
 - + drwy ariannu cyrsiau hyfforddi iaith a chysiau hyfforddi

Mae angen i faes gofal iechyd a chymdeithasol sicrhau'r canlynol:

- bod yn ymwybodol o gefndir ieithyddol y cleifion er mwyn i'r staff allu gael eu hyfforddi'n briodol.
- ystyried mabwysiadu egwyddor "cynnig gweithredol", lle y gofynnir i gleifion nodi eu dewis iaith, fel sy'n digwydd yng Nghymru.
- ystyried rhoi dulliau o gyfleu dewis iaith y claf yn weledol i'r staff ar waith. Er enghraifft, drwy wneud nodyn ar siart y claf er mwyn sicrhau, ar ôl newid sifftiau, fod y staff yn ymwybodol o'i ddewis iaith.
- ystyried penodi hyfforddwr iaith neu drefnu cyrsiau er mwyn i bersonél wella eu cymwyseddau cyfathrebu sy'n ystyried yr iaith lleiafrifol. Mae angen addasu'r cyrsiau hyn i ofynion y gweithle a chefnidiroedd ieithyddol y myfyrwyr.
- cydnabod y gall hyd yn oed sgiliau iaith cyfyngedig gynnig cysur i gleifion a galluogi staff â sgiliau cyfyngedig i'w defnyddio.

Mae angen i hyfforddwyr iaith a galwedigaethol sicrhau'r canlynol:

- addasu arferion rhyngddisgyblaethol: mae angen i hyfforddwyr galwedigaethol ac athrawon iaith gydweithio er mwyn addasu cyrsiau iaith i'r gweithle sydd yn defnyddio arferion rhyngddisgyblaethol
- cynnwys ymwybyddiaeth o ieithoedd lleiafrifol mewn hyfforddiant galwedigaethol a phwysleisio pwysigrwydd anghenion iaith cleifion.
- cynnig cyrsiau mewn ieithoedd lleiafrifol sydd wedi'u hanelu at fewnfudwyr ac sy'n canolbwyntio ar y gweithle.
- defnyddio gweithwyr gofal presennol sydd â sgiliau yn y ddwy iaith fel gwirfoddolwyr i addysgu gan eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchiadau lle y defnyddir y ddwy iaith.
- rhannu cyrsiau, sy'n seiliedig ar ddulliau COMBI neu ddulliau eraill, drwy drwydded agored, ar-lein neu gyda rhanddeiliaid eraill.

Mae angen i lunwyr polisi, swyddogion gofal iechyd, hyfforddwyr iaith a hyfforddwyr galwedigaethol fod yn ymwybodol bod:

- deunyddiau dysgu hyblyg, a ddatblygwyd gan COMBI, sy'n ystyried anghenion mewnffudwyr mewn cymunedau gwaith dwyieithog ledled Ewrop, ar gael ar-lein am ddim.

Llyfryddiaeth

- Cioffi, RN Jane, 'Communicating with Culturally and Linguistically Diverse Patients in an Acute Care Setting: Nurses' Experiences', *International Journal of Nursing Studies*, 40 (2003), 299–306
- *European Charter for Regional or Minority Languages*, European Treaty Series (Strasbourg)
- <<https://www.coe.int/en/web/conventions/full-list/-/conventions/rms/0900001680695175>>
- European Commission, Communication from the Commission to the European Parliament, the Council, the European Economic and Social Committee and the Committee of the Regions - A New Skills Agenda For Europe (Brussels, 2016) <<https://ec.europa.eu/transparency/regdoc/rep/1/2016/EN/1-2016-381-EN-F1-1.PDF>>
- Eurostat. (2017). Migration and migrant population statistics. [Online] Eurostat: Statistics Explained. Retrieved from http://ec.europa.eu/eurostat/statistics-explained/index.php/Migration_and_migrant_population_statistics
- Irvine, Fiona E, Gwerfyl W Roberts, Peter Jones, Llinos H Spencer, Colin R Baker, and Cen Williams, 'Communicative Sensitivity in the Bilingual Healthcare Setting: A Qualitative Study of Language Awareness', *Journal of Advanced Nursing*, 53 (2006), 422–434
- Mendez, Mario F, Samira Saghafi, and David G Clark, 'Semantic Dementia in Multilingual Patients', *The Journal of Neuropsychiatry and Clinical Neurosciences*, 16 (2004), 381–381
- Yao, Yuxin, and Jan C van Ours, 'Language Skills and Labor Market Performance of Immigrants in the Netherlands', *Labour Economics*, 34 (2015), 76–85

NODIADAU:

NODIADAU:

combiproject.eu



facebook.com/COMBIproject



twitter.com/project_combi

Funding institution

EACEA, Erasmus+ KA2 Strategic Partnerships for adult education

Project duration

01/09/2016 - 31/08/2019



This work is licensed under a Creative Commons Attribution 4.0 License



Co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union

The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.